Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Archwilio

## Contract Merlin - Galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes drwy TGCh

Adroddiad Pwyllgor (2) 06-06
Medi 2006

# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# Y PWYLLGOR ARCHWILIO

**Adroddiad a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 13 Medi 2006 yn unol â rhan 102(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998**

# Contract Merlin – Galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes drwy TGCh

**Cynnwys** **Paragraffau**


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 1 |
| **Argymhellion** | 15 |
| **Contract Merlin** | |
| Ar y cyfan, cafodd y broses gaffael ei rheoli'n dda yn gyffredinol, ond mae gwersi yma ar gyfer caffael yn y dyfodol | 16 |
| Perfformiad TGCh anghyson sy'n peryglu llwyddiant y contract yn y tymor hir | 27 |
| Mae angen i'r Cynulliad ddatblygu'i allu i ddefnyddio'r contract i weddnewid prosesau busnes y Cynulliad | 33 |

**ATODIADAU**

Atodiad A Trafodaethau perthnasol y Pwyllgor – Cofnodion y dystiolaeth (Dydd Iau 6 Ebrill 2006)

Atodiad B Gwybodaeth ychwanegol gan Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Crynodeb

1. Ym mis Ionawr 2004, llofnododd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Siemens Business Services Ltd (SBS) gontract £220 miliwn, deg mlynedd, Merlin, i ddarparu gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a phrosiectau newid busnes[1] drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyd. Mae SBS yn arwain grŵp o bartneriaid (a elwir 'the Alliance') sydd yn cyflwyno'r amrediad o wasanaethau TGCh a newid busnes sy'n dod o dan y contract. Dyma'r gwasanaethau TG a ddarparwyd gynt dan gontract Osiris. Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad broses gaffael am ddwy flynedd a hanner ar ran y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd a disgrifiodd yr Ysgrifennydd Parhaol hyn fel un o'r prosesau negodi mwyaf a mwyaf cymhleth i Lywodraeth y Cynulliad, a'r Swyddfa Gymreig o'i flaen, fod â rhan ynddi.[2]

2. Ym mis Chwefror 2003[3], cyflwynasom adroddiad ar gontract Osiris, y contract a ragflaenodd hwn, yn dilyn adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol.[4] Casgliad ein hadroddiad oedd bod contract Osiris wedi cynnig llai o werth ein harian ar ôl ei ail-negodi i gwrdd ag anghenion ehangach y Cynulliad Cenedlaethol oedd newydd ei greu. Gwelsom nifer o wersi y byddai'n fuddiol eu hystyried wrth gaffael y system nesaf.

3. Mae peryglon ychwanegol ynghlwm wrth gwmpas uchelgeisiol Merlin, sydd yn ehangach ei derfynau nag Osiris. Bwriedir i Merlin weddnewid prosesau busnes allweddol Llywodraeth y Cynulliad fel bod y Cynulliad, pan ddaw'r contract i ben, ar y blaen yn deg o ran systemau busnes a seilir ar TGCh.

---

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru (2006) *Contract Merlin – yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes*. Mae Ffig 18 yn rhestru'r cyfnod cyntaf o brosiectau newid

[2] Atodiad A, para 17 a 58

[3] Adroddiad Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Osiris: Y Contract Menter Cyllid Preifat ar gyfer Technoleg Gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru*, Chwefror 2003

[4] Archwilydd Cyffredinol Cymru (2002) *Osiris: Y Contract Menter Cyllid Preifat ar gyfer Technoleg Gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru*

4. Trwy gydol ein trafodaeth ar gontract Merlin, ‘roeddem yn ceisio ystyried y newidiadau pwysig a ganlyn, gan eu bod yn golygu y bydd angen mwy o hyblygrwydd yn y contract newydd nag yr oedd yn ei ragflaenydd:

   a. y gwahanu gweinyddol rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad;

   b. y rhaglen adleoli sylweddol gyda staff yn cael eu symud o gwmpas Cymru;

   c. yr ymgyrch i sicrhau effeithlonrwydd a awgrymir gan *Creu’r Cysylltiadau*;

   d. rhaglen cynnwys Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad, a’r *tranche* cyntaf o’r rhain wedi digwydd ym mis Ebrill 2006.

5. Ar sail adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2006[5], holasom ni a fydd contract Merlin yn gweithio ac yn cyflwyno’r manteision a arfaethwyd ganddo. Archwilion ni, yn benodol, effeithlonrwydd y caffael a’r fframwaith sy’n cynnal Merlin wrth iddynt gyflwyno’r manteision. A ninnau’n ddefnyddwyr system Merlin ein hunain, mae diddordeb arbennig wedi bod gennym ym mherfformiad y system hon yn ystod ei dwy flynedd gyntaf. Mae hi’n rhy fuan, fodd bynnag, i asesu effaith y rhaglen newid busnes, ac rydym yn disgwyl dod yn ôl at hyn yn y dyfodol, yn enwedig wrth fonitro tueddiadau ym mherfformiad y gwasanaeth. Cymerasom dystiolaeth gan Syr Jon Shortridge, Yr Ysgrifennydd Parhaol yn y Cynulliad Cenedlaethol a Dr Michael Harrington, Cyfarwyddwr Gwybodaeth a Systemau Corfforaethol Llywodraeth y Cynulliad. Daethom i’r casgliad:

   a. Ar y cyfan, fod y broses gaffael wedi cael ei rheoli’n dda yn gyffredinol, ond mae gwersi yma ar gyfer caffael yn y dyfodol;

   b. Fod perfformiad TGCh anghyson yn peryglu llwyddiant y contract yn y tymor hir; a

---

[5] Archwilydd Cyffredinol Cymru (Mawrth 2006) *Contract Merlin – yn galluogi’r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes trwy TGCh.*

c. Bod angen i'r Cynulliad ddatblygu'i allu i ddefnyddio'r contract i weddnewid prosesau busnes y Cynulliad.

## Ar y cyfan roedd y broses gaffael wedi cael ei rheoli'n dda, ond mae gwersi yma ar gyfer caffael yn y dyfodol

6. Cytunasom â chasgliad yr Archwilydd Cyffredinol fod y broses gaffael wedi cael ei rheoli'n dda ar y cyfan. Cawsom fod cysyniad Merlin o gyfuno darparu TGCh ar y cyd â newid busnes yn hollol ddiogel ac yn cyd-fynd â syniadaeth yr Ysgrifennydd Parhaol o weddnewid dull Llywodraeth y Cynulliad o weithio. Dyma'r arferion da y dylid eu mabwysiadu wrth ymdrin â materion caffael pwysig:

   - darparodd proses Adolygiad Gateway sicrhad annibynnol gwerthfawr ar rai cyfnodau allweddol yn ystod y caffael;
   - roedd yr atebolrwydd a'r arweiniad yn ystod y caffael yn glir;
   - roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd y camau priodol i sicrhau cystadleuaeth yn y caffael hwn lle'r oedd deiliad presennol yn cyflenwi; ac
   - roedd y cyfnod ymchwilio'n werthfawr wrth ddangos posibiliadau partneriaeth strategol.

7. Roedd y caffael, fodd bynnag, wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, yn rhannol am nad oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi gweld yn gynt, fel y dylasai, fod angen cyngor allanol arni. Bu effaith yr oedi hwn yn fodd i'r swyddogion benderfynu dal yn ôl ar y caffael ac estyn contract Osiris am bedwar mis ar gost ychwanegol o £3.8 miliwn. Rhoddodd hyn fwy o amser i'r negodi ac , yn ystod y cyfnod hwn, llwyddodd y tîm i sicrhau gostyngiad o 37 y cant yn nhaliadau misol y defnyddiwr. Er mwyn gwella prosesau caffael pwysig yn y dyfodol , dyma'r gwersi y dylai Llywodraeth y Cynulliad eu dysgu:

   - dylai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad fod wedi penodi'r holl ymgynghorwyr arbenigol angenrheidiol ar ddechrau'r contract;

- nid oedd  bwrdd caffael Merlin wedi monitro holl gostau'r caffael fel mater o drefn ac nid oedd ychwaith wedi derbyn digon o wybodaeth ariannol i fedru clustnodi costau gwahanol rannau'r rhaglen gaffael;
- ni chafodd y defnyddwyr ddigon o ran wrth nodi'r anghenion, yn enwedig y potensial tymor hir  i ddatblygu systemau busnes newydd; ac
- roedd Llywodraeth y Cynulliad heb ddefnyddio'n llawn broses Adolygiad Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

8. Wrth lenwi lle Merlin ar ddiwedd ei gontract deng mlynedd, yr her o flaen swyddogion Llywodraeth y Cynulliad fydd sicrhau cystadleuaeth mewn proses gaffael sydd yn debygol o gynnwys y cyflenwr presennol sydd â thros ugain mlynedd o brofiad mewn partneriaeth â'r Cynulliad Cenedlaethol.  Bydd yn rhaid iddynt fonitro'r datblygiadau yn y caffael, gan na fydd yr her hon yn berthnasol i'r Cynulliad yn unig.

### Perfformiad TGCh anghyson sy'n peryglu llwyddiant y contract yn y tymor hir

9. Dechreuodd Merlin ddarparu gwasanaeth  TGCh dan gontract ar 1 Mai 2004. 'Rydym yn pryderu'n fawr nad yw safon y gwasanaethau TGCh hyd yma'n darparu gwasanaeth o'r ansawdd  y mae gan ddefnyddwyr Merlin yr hawl i'w ddisgwyl.  Yn ôl y drefn clod am wasanaeth - sydd â'r nod o wobrwyo'r Alliance yn ariannol yn ôl safon y gwasanaeth a ddarperir – mae'r perfformio wedi bod yn anwadal.

10. Rydym hefyd yn rhannu pryder yr Ysgrifennydd Parhaol fod yr oedi wrth ddarparu'r dechnoleg newydd yn golygu cryn berygl i fusnes.  Roedd yr Alliance i fod i gyflwyno TG a theleffoni integredig a meddalwedd newydd i ddefnyddwyr erbyn haf 2005 (gelwid hyn yn rhaglen weddnewid). Fodd bynnag gohiriwyd diwedd y prosiect hwn i fis Medi 2006, sef pymtheg mlynedd yn ddiweddarach.  Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio â'r Alliance ar hyn o bryd i wella'r sefyllfa. Rydym yn pryderu hefyd y gall y problemau hyn roi straen ar berthynas Llywodraeth y Cynulliad â'r Alliance.  Byddai'n rhwydd i Lywodraeth y Cynulliad ddychwelyd at berthynas wrthwynebus gonfensiynol â'r cyflenwr, a byddai

hynny'n cyfaddawdu cyflwyno'r manteision mwyaf y gallai partneriaeth eu cynnig.

### Mae angen i'r Cynulliad ddatblygu'i allu i ddefnyddio'r contract i weddnewid prosesau busnes y Cynulliad

Mae'n dda gennym nodi bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi'r argymhellion yn ein hadroddiad ar Osiris i gynnwys mesurau i asesu a sicrhau gwerth am arian yng nghontract Merlin.[6] O'u defnyddio'n briodol, dylai'r rhain alluogi Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau gwerth am arian tra pery'r contract.

11. Ar y dechrau roedd gwendidau wrth reoli costau wedi esgor ar ordaliad o £241,000 gan Lywodraeth y Cynulliad. Ad-dalwyd hyn bellach a cheir cronfa ddata gywir o ddefnyddwyr TGCh sydd yn cynnwys y rhai o'r CCNC a unwyd â Llywodraeth y Cynulliad ym mis Ebrill 2006. Cryfhawyd strwythur trefn y llywodraeth hefyd drwy hepgor yr Alliance o'r fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau newid busnes.

12. Nod allweddol Partneriaeth Merlin oedd trosglwyddo sgiliau oddi wrth staff yr Alliance i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r ddwy ochr yn cydnabod nad yw'r trosglwyddo hwn wedi digwydd mor gyflym ag y bwriadwyd. Bydd yn rhaid i hyn wella er mwyn cyflwyno newid cynaliadwy ac er mwyn cadw Llywodraeth y Cynulliad rhag gorfod dibynnu'n rhy hir ar wasanaethau'r Alliance. Mae Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â'r Alliance, wedi datblygu model sy'n dangos sut y bydd yn gweithredu mewn pedair neu bum mlynedd: er mwyn cyrraedd y weledigaeth hon, mae hi wedi dethol y gyfres gyntaf o brosiectau newid busnes ac mae hi wrthi'n datblygu methodoleg i fesur y costau a'r manteision a ddaw yn sgil y prosiectau hyn.

13. Mae hi'n hollol hanfodol fod Llywodraeth y Cynulliad yn gwella'i allu i weithredu fel cwsmer deallus, gan fod yn ymwybodol o botensial TGCh i gyflenwi'i hanghenion ond ei bod yn gallu herio'n bendant, ar yr un pryd, gynigion yr Alliance. Rhan hanfodol o gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad

---

[6] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin* (Mawrth 2006), Ffig. 9 ac Atodiad 3

yn y dyfodol yw datblygu'r sgiliau hyn a sefydlu fframwaith o reolwyr rhaglenni a phrosiectau.

## Argymhellion

14. Rydym yn gwneud nifer o argymhellion i wella prosiectau mawr caffael yn y dyfodol, gwella perfformiad Merlin a rheoli risg i'r dyfodol:

### Ar gyfer prosiectau caffael mawr yn y dyfodol

(i) Bu oedi yn y caffael am fod Llywodraeth y Cynulliad yn rhy hwyr wrth weld yr angen am gaffael cyngor arbenigol ychwanegol i negodi contract o'r maint hwn. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad , yn gynnar yn y broses gaffael, drafod ei hangen am ymgynghorwyr allanol er mwyn osgoi'r oedi a ddaw yn sgil penodi ymgynghorwyr drwy gystadleuaeth agored pan fydd y broses gaffael ar ei hanner. Er mwyn lleiafu cost yr ymgynghorwyr hyn, dylai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio nifer o ffyrdd o dalu, megis talu am gyngor wrth y dydd yn hytrach nag wrth yr awr.**

(ii) Ni welodd bwrdd y rhaglen gaffael oedd yn goruchwylio caffael Merlin ddigon o wybodaeth ariannol i'w galluogi i fonitro gwariant yn fanwl ac yn gyson. I alluogi craffu manylach ar gostau caffael yn y dyfodol, **dylai'r timau caffael gyflwyno data ariannol bob chwarter ar rannau unigol prosiectau caffael mawr i fwrdd y rhaglen gaffael.**

(iii) Ni chafodd y defnyddwyr ddigon o ran wrth nodi'u hanghenion TGCh ar adeg llunio manyleb y contract. **Wrth baratoi i lenwi lle Merlin, dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod gan y defnyddwyr ran weithredol wrth nodi anghenion TGCh a newid busnes, er enghraifft drwy weithdai, ymweliadau safle a rhwydweithiau â sefydliadau perthnasol, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ill dau, i weld posibiliadau defnyddio TGCh i gyflwyno newid busnes.**

(iv) Roedd hepgor Adolygiadau Gateway 0 a 2 wedi lleihau'r maint o graffu allanol a fu ar gaffael Merlin. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio pob un o bum Adolygiad Gateway Swyddfa Masnach y**

**Llywodraeth i ddod â sicrhad ac adolygiad annibynnol i bob cyfnod allweddol o raglenni caffael mawr yn y dyfodol.**

(v) Er bod tîm caffael Merlin wedi cymryd y camau priodol i reoli risg negodi â chyflenwr presennol, bydd angen i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad sicrhau cystadleuaeth wrth gaffael TGCh yn y dyfodol gan y gallai SBS fod â chymaint ag ugain mlynedd o brofiad o weithio yn y Cynulliad Cenedlaethol erbyn diwedd contract Merlin. **Dylai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad sicrhau tua diwedd Merlin fod ganddynt ddigon o amser i benderfynu ar strategaeth gaffael cyflenwr yn ei le, a hynny yng ngoleuni'r hyn fydd yn hysbys ar y pryd ynghylch trafod caffael sy'n cynnwys cyflenwr presennol ac ynghylch natur y farchnad sy'n cyflenwi'r gwasanaethau angenrheidiol ar yr adeg honno.**

## Gwella Perfformiad Merlin

(vi) Mae perfformiad anghyson TGCh yn ystod dwy flynedd gyntaf y contract yn golygu bod llwyddiant y rhaglen mewn perygl, a gwaethygwyd hyn gan lithriant wrth adnewyddu rhwydwaith mewnol TGCh. **Dylai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod gwella'r gwasanaeth yn parhau'n eitem allweddol ar agenda Bwrdd Partneriaeth Merlin nes i'r Alliance gyflwyno gwelliannau sylweddol, mesuradwy ar safon y perfformiad ar hyn o bryd.**

(vii) Nid yw'r contract wedi diwallu anghenion Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn llawn. Mae'r gwahanu a ddigwyddodd rhwng Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Ebrill 2006 yn cynnig cyfle newydd i ddatblygu safonau gwasanaeth newydd sydd yn adlewyrchu'r anghenion hynny. **Dylai swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad gynnwys Aelodau'r Cynulliad a'u staff wrth nodi'u gofynion TGCh, safonau gwasanaeth a dulliau mesur bodlonrwydd y cwsmer, er mwyn sicrhau bod cynnydd yn gallu cael ei fesur.**

## Rheoli risg yn y dyfodol

(viii) Roedd gwendidau wrth reoli costau ar ddechrau un y contract. Bydd amsugno nifer sylweddol o staff y CCNC yn ychwanegu at y perygl o fethu rheoli costau'n effeithiol oherwydd diffyg gwybodaeth gywir am ddefnyddwyr a'u lleoliadau. **Dylai gwasanaethau archwilio mewnol Llywodraeth y Cynulliad fonitro'r taliadau ar gyfer defnyddwyr newydd a digonolrwydd y fframwaith rheoli ar ôl y gwahanol gyfuniadau. Yn yr un modd, dylai swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer rheoli costau TGCh wrth iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu cyllideb TGCh eu hunain.**

(ix) Nod contract Merlin yw gwella sgiliau swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol ond nid yw'r broses o drosglwyddo sgiliau wedi bod mor gyflym â'r disgwyl. Gall trosglwyddo'r sgiliau hyn leihau'r perygl mawr na fyddai gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad allu cwsmer deallus i herio cynigion yr Alliance, ac i reoli cyflwyno'r manteision sy'n deillio o brosiectau newid, a'u mesur. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad, drwy'r contract, gyflymu trosglwyddo sgiliau drwy annog yr Alliance i weithio gyda grŵp ehangach o swyddogion a'u hyfforddi i ddatblygu a chynnal grŵp proffesiynol o reolwyr prosiectau a rhaglenni. Dylai fod monitro ffurfiol ar y cynnydd a thrafodaethau â phartneriaid yr Alliance pe na bai gwella mesuradwy yng nghyflymder y trosglwyddo sgiliau erbyn diwedd y flwyddyn galendr 2006.**

(x) Mae Llywodraeth y Cynulliad, mewn partneriaeth â'r Alliance, wedi datblygu model sy'n dangos sut olwg fydd ar eu gweithredu ymhen pedair neu bum mlynedd. **Er mwyn hyrwyddo negodi contractau a gwerthuso'r deilliannau, dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu methodoleg a chanllawiau ysgrifenedig ar fesur costau a manteision prosiectau newid, boed y rheiny'n rhai ariannol neu fel arall. Dylai'r fframwaith hwn fod â chysylltiad amlwg â chynllunio ariannol tymor canolig, a dylai cyllidebau newid i adlewyrchu'r effeithiau ariannol sy'n deillio o brosiectau newid busnes.**

## Ar y cyfan, cafodd proses gaffael Merlin ei rheoli'n dda, ond mae yma wersi i'r dyfodol

### Roedd y cysyniad yn ddiogel ac yn cyd-fynd ar y naill law â'r hyn yr oedd y farchnad am ei ddarparu, ac ar y llall â'r dymuniad i ddefnyddio potensial TGCh i'r eithaf

15. Casgliad adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol oedd bod cysyniad Merlin , lle'r oedd y Cynulliad yn datblygu partneriaeth strategol â busnes yn y sector preifat i gyflwyno newid busnes ar sail TGCh, yn ddiogel am ei fod yn cydweddu â chanlyniadau ymgynghori â chyflenwyr ( roedd arweinwyr y farchnad yn dymuno cyfuno darparu TG â newid) ac â phrofiad y sector cyhoeddus o bartneriaethau llwyddiannus a gyflwynwyd drwy TGCh. Ymddengys nad oedd gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad lawer o ddewis ymarferol ond parhau i droi at ddarparwr allanol i roi gwasanaeth TGCh i'r Cynulliad, a hynny drwy bartneriaeth tymor hir. Rydym yn cydnabod bod cyfuno TGCh a newid busnes yn gallu hyrwyddo defnyddio systemau TGCh yn fwy effeithiol o fewn y Cynulliad Cenedlaethol, gan ymateb felly i un o wendidau Osiris.[7]

16. Holasom hefyd pam y bu i uwch dîm rheoli'r Cynulliad gymryd blwyddyn i gefnogi'r dewis partneriaeth er bod y math hwn o weithredu'n dod yn gyffredin iawn yn y farchnad. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod ei Bwyllgor Rheoli wedi gwneud y penderfyniad ar yr amser priodol yn amserlen y caffael, ac nad oedd yr amseru yn allweddol. Gallai fod wedi mynnu penderfyniad cynharach ond credai ei bod hi'n bwysicach i'r uwch dîm rheoli ddatblygu cyd-ddealltwriaeth ynghylch potensial y math o gontract partneriaeth a gynigiwyd. Un o'r prif ddulliau o gynnal y gydweledigaeth hon oedd cyfnod chwe wythnos o ymchwil yn Ionawr a Chwefror 2003, pan weithiai'r cyflenwyr o fewn y Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu cynigion newid busnes. Roedd y cyfnod ymchwil hwn yn broses

---

[7] Atodiad A, para. 8-11

ddysgu i'r Cynulliad Cenedlaethol a bu'n gymorth i sicrhau dealltwriaeth well o newid busnes drwy TGCh.[8]

### Bu oedi yn y caffael, yn rhannol am fod Llywodraeth y Cynulliad yn rhy hwyr wrth weld yr angen am gyngor arbenigol ychwanegol

17. Yn wreiddiol, roedd y rhagflaenydd sef contract Osiris, i fod i orffen ar 12 Ionawr 2004. Fodd bynnag, cymerodd proses gaffael Merlin fwy o amser nag y bwriadwyd ac felly cymerwyd saib yn y caffael yn Awst 2003 i swyddogion y Cynulliad asesu'u sefyllfa. Penderfynodd y swyddogion roi estyniad o bedwar mis ar gontract Osiris ar gost ychwanegol o £3.8 miliwn. Llofnodwyd contract Merlin ar 6 Ionawr 2004 a dechreuwyd cyflwyno'r gwasanaeth TGCh ar 1 Mai 2004.

18. Cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol, gyda synnwyr ddoe, fod y swyddogion wedi rhoi amcangyfrif rhy isel ar gyfer amser y negodi, serch iddo ddweud hefyd mai caffael newydd a chymhleth oedd hwn.[9] Prif achos yr oedi oedd llithriant rhwng y cyfnod ymchwil a'r cyfnod negodi. Digwyddodd hyn am fod tîm caffael Llywodraeth y Cynulliad wedi sylweddoli bod angen am allu arbenigol ychwanegol arnynt ac y byddai'n rhaid ei gaffael oddi wrth ymgynghorwyr allanol.[10] Mater o siom oedd y ffaith bod angen estyn contract Osiris ar gryn gost ychwanegol. Fodd bynnag, roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn llygad eu lle wrth beidio â chwtogi'r trafodaethau â'r cynigwyr, mewn ymgais i osgoi'r estyniad, gan fod y trafodaethau hyn wedi sicrhau gostyngiad o 37 y cant yn nhaliadau misol y defnyddiwr.[11]

### Ni fonitrodd y bwrdd caffael gostau'r caffael yn gyson

19. Mynegodd gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth y Cynulliad bryderon ynghylch y monitro a'r rheoli a fu ar gostau'r caffael.[12] Roeddem yn pryderu hefyd nad oedd bwrdd caffael Merlin yn gweld adroddiadau

---

[8] Atodiad A, para 12-17
[9] Atodiad A, para 17 a 57 - 58
[10] Atodiad A, para 17 a 60 - 62
[11] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para 1.29 ac Atodiad A, para 59
[12] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para 1.31

ariannol manwl fyddai'n eu galluogi i fonitro costau pob rhan o'r rhaglen gaffael. Dywedwyd wrthym fod yr uwch berchennog cyfrifol a rheolwr rhaglen gaffael Merlin yn cadw llygad craff iawn ar y wybodaeth am gostau er nad oedd y wybodaeth hon yn cael ei rhoi gerbron y bwrdd caffael Merlin yn gyson. Rydym yn croesawu'r ffaith fod yr Ysgrifennydd Parhaol yn cydnabod y diffyg yn y trefniadau adrodd yn ôl oedd yn golygu nad oedd gan y bwrdd caffael wybodaeth i'w alluogi i herio costau rhannau unigol y caffael.

20. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol orwariant o 30 y cant yng nghyllideb y caffael, yn deillio gan fwyaf o benderfyniad y swyddogion i beidio â chynnwys yn y gyllideb wreiddiol lwfans ar gyfer costau cyfreithiol gan ddisgwyl y gellid cael cyngor cyfreithiol yn fewnol. Ar ôl hyn, penderfynodd y tîm caffael fod natur arbenigol y caffael yn golygu bod angen penodi cyfreithwyr allanol arbenigol. Dadleuodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn gwerth da am ei harian o ran y costau cyfreithiol a dalwyd. Roedd costau'r caffael yn gyffredinol o fewn y meincnodi a glustnodwyd gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth - sef dau y cant o gyfanswm costau'r contract.

### Roedd llywodraeth y Cynulliad heb gynnwys y defnyddwyr yn ddigonol wrth nodi'i hanghenion

21. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dweud mai ychydig, yn enwedig ar y dechrau, oedd y trafod â'r defnyddwyr ynglŷn â'u gofynion TGCh i'r dyfodol.[13] Rydym yn cytuno â'r Ysgrifennydd Parhaol fod angen, wrth feddwl am wasanaethau TGCh tymor hir yng nghyd-destun newid busnes, gydio yn nychymyg y defnyddwyr i'w helpu i ddeall potensial TGCh ac i weld sut mae sefydliadau tebyg yn defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio, TGCh. Rydym yn cydnabod bod gwneud hyn yn dda yn gryn gamp, ond gallai'r swyddogion fod wedi cynnwys y defnyddwyr yn fwy effeithiol, drwy ddefnyddio, er enghraifft, weithdai neu ymweliadau â safleoedd i ddangos sut y gellid defnyddio TGCh.[14] Pryderwn o hyd a oes

---

[13] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para 1.24
[14] Atodiad A, para 20 - 24

gan yr uwch swyddogion ddigon o wybodaeth ac arbenigedd i ddeall yn llawn yr hyn y gallai'r farchnad TGCh ei wneud ar gyfer eu hadrannau.[15]

22. Er bod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cyfeirio at brosiect penodol o fewn y caffael ar gyfer ymateb i anghenion Aelodau'r Cynulliad, ni chafwyd digon o ymgynghori â Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, yn enwedig Aelodau'r Cynulliad, gan fod llawer o'r farn nad oedd y TGCh newydd a gyflenwir gan yr Alliance yn cyflawni llawer o'u hanghenion.[16] Rydym ni'n credu y byddai wedi bod o fantais i Lywodraeth y Cynulliad wrth negodi bargen well pe bai defnyddwyr allweddol megis Aelodau'r Cynulliad a'u staff wedi cael eu cynnwys yn helaethach wrth drafod y contract. Efallai bod costau ychwanegol wedi deillio o'r diffyg cyd-drafod effeithiol hwn, er enghraifft prynodd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gais Aelodau'r Cynulliad offer ychwanegol oedd yn costio £185,900 ynghyd â thâl ychwanegol o £37,320 y flwyddyn ar gyfer cymorth a chynnal.[17]

## Ni ddefnyddiodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad broses adolygu Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn llawn

23. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dweud, er bod proses caffael Merlin wedi dilyn yr arferion gorau yn gyffredinol drwy wahodd adolygiad annibynnol ar yr achos busnes a'r penderfyniad i fuddsoddi gan gymheiriaid drwy broses adolygu Gateway, Swyddfa Masnach y Llywodraeth, na fu i'r tîm gomisiynu Gateway O (asesiad strategol) na Gateway 2 (adolygiad ar strategaeth y caffael). Dywedodd Syr Jon Shortridge wrthym nad oedd wedi gweld unrhyw dystiolaeth fod yr hepgorion hyn wedi effeithio'n wael ar y caffael ond y byddent wedi rhoi sicrhad annibynnol gwerthfawr. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys y pum adolygiad Gateway i gyd mewn prosesau caffael sylweddol yn y dyfodol.[18]

---

[15] Atodiad A, para 33 - 36
[16] Atodiad A, para 26-28
[17] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para 2.26 ac Atodiad A para 27-32
[18] Atodiad A, para 43-46

### Bydd yn rhaid i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad sicrhau cystadleuaeth wrth gaffael yn y dyfodol

24. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi manylion y camau a gymerwyd gan dîm caffael Merlin i sicrhau bod y broses gaffael – oedd yn cynnwys y sawl oedd yn cyflenwi'r TG ar y pryd – yn trin pob un o'r cynigwyr yn gyfartal.[19] Dywedodd Dr Harrington wrthym fod y tîm caffael wedi gwrthod cais SBS i ddod â'i dîm oedd yn cyflawni'r gwaith yn barod i gamau terfynol y negodi.[20] Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oedd yn credu bod gwersi i Lywodraeth y Cynulliad yn y rhan hon o'r caffael ac y byddai'n trin y mater bod cyflenwr presennol yn cynnig am y contract yn yr un ffordd yn union. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r ffaith fod Syr Jon yn hyderu y bydd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn dilyn yr arferion da diweddaraf er mwyn sicrhau cystadleuaeth ddilys mewn caffaeliadau mawr TGCh yn y dyfodol, a derbyn y gallai fod gan SBS gymaint ag ugain mlynedd o brofiad yn gweithio â'r Cynulliad Cenedlaethol pan gaiff y contract ei ail-dendro, a'r ffaith y bydd hyn yn fater cynyddol bwysig mewn caffael yn y sector cyhoeddus.[21]

25. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn amlygu'r ffaith fod un cynigydd yn gweld diffyg eglurdeb ynghylch statws y cyfnod ymchwil, a gallai hyn fod wedi arwain at fynd i gyfraith. Credai Syr Jon nad oedd achos i'r tîm caffael ei ateb ar y pwynt hwn a bod Llywodraeth y Cynulliad wedi trin pob un o'r tri chynigydd yn gyfartal.[22]

## Perfformiad TGCh anghyson sy'n peryglu llwyddiant y contract yn y tymor hir

### Mae'r prosiect gweddnewid wedi llithro'n sylweddol

26. Roedd yr Alliance i fod i ddarparu offer TG a theleffoni integredig a meddalwedd newydd i bob defnyddiwr o fewn deunaw mis cyntaf y prosiect (a elwir yn brosiect gweddnewid). Mae cryn lithriant wedi digwydd,

---

[19] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para. 1.22 – 1.23
[20] Atodiad A, para 50
[21] Atodiad A, para 52 - 54
[22] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para 1.26 ac Atodiad A, para 55-56

fodd bynnag: mae'r gwaith o ddarparu'r offer newydd i'w gwblhau erbyn Medi 2006, bymtheg mis ar ôl dyddiad y cynllun gwreiddiol. [23] Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cyfaddef eu bod wedi methu â sylweddoli maint y perygl a ddeuai drwy lithriant yn y prosiect gweddnewid ac rydym yn pryderu'n fawr fod hyn bellach yn golygu perygl gwirioneddol i fusnes y Cynulliad.[24] Rydym ni'n deall bod yr oedi wedi digwydd o ganlyniad i nifer o faterion ond rydym yn cyd-fynd â syndod yr Ysgrifennydd Parhaol fod gweithredu'n brydlon wedi achosi'r fath drafferth i gyflenwr pwysig byd-eang fel SBS.[25]

27. Holasom pam na fu i SBS orfod derbyn cosb am y llithriant yn y prosiect gweddnewid.[26] Dywedodd Dr Harrington wrthym fod SBS wedi derbyn cyfrifoldeb am yr oedi gan ysgwyddo llawer o'r costau, yn enwedig y gost o gynnal yr hen rwydwaith mewnol yn ogystal â'r un newydd.[27] Roedd y Cynulliad wedi talu pris gostyngol ar gyfer defnyddwyr- pris a seiliwyd ar yr arbedion yr oedd SBS wedi'u disgwyl yn sgil cael y rhwydwaith mewnol newydd. Rydym yn credu nad yw hyn yn cyfrif y gost i'r Cynulliad o fethu â manteisio ar y TGCh ragorach y disgwyliai'r defnyddwyr ei derbyn. Nid yw ychwaith yn cyfrif y treuliau ddaeth i ran llawer o Aelodau'r Cynulliad. Yr unig ateb i'r sefyllfa gan rai o'r Aelodau hynny oedd prynu cyfrifiadur personol annibynnol o siopau'r stryd fawr am fod y meddalwedd a ddarperid mor hen ffasiwn fel na allent agor dogfenni oddi wrth eu hetholwyr.[28] Rydym yn nodi bod y defnyddwyr hanfodol –gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad – yn flaenoriaeth wrth dderbyn eu hoffer newydd yn ar ddechrau camau cyntaf y darparu ac rydym yn croesawu adolygiad annibynnol Gateway sydd ar ddod i asesu effaith yr oedi ar y defnyddwyr a phriodoldeb y cynllun prosiect cyfredol ar gyfer y prosiect gweddnewid.[29] Rydym yn croesawu hefyd y ffaith fod yr Ysgrifennydd Parhaol a Dr

---

[23] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para. 2.25
[24] Atodiad A, para. 81
[25] Atodiad A, para. 81, 141 a 159-160
[26] Atodiad A, para. 158, Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para. 2.27
[27] Atodiad A, para 161 - 163 ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para. 2.27
[28] Atodiad A, para. 84 a 164
[29] Atodiad A, para. 90

Harrington wedi ein sicrhau y byddant yn ymdrin yn bersonol ag unrhyw gwynion ynglŷn â pherfformiad TGCh a gyfeirir atynt gan Aelodau'r Cynulliad.[30]

## Yn ystod dwy flynedd gyntaf y contract nid yw'r Alliance wedi cwrdd â safonau gwasanaeth TGCh bob amser

28. Yn ogystal â'r llithriant yn y prosiect gweddnewid, mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn manylu ar lefelau anghyson perfformiad TGCh yn ystod 21 mis cyntaf y contract. Nodasom fod y perfformiad, ar ôl dechrau gwael, wedi gwella i'r fath raddau nes, ym mis Ebrill 2005 ni chosbwyd yr Alliance ag unrhyw gredydau gwasanaeth (llif ariannol yn ôl ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan yr Alliance). Fodd bynnag , ers mis Gorffennaf 2005, mae'r perfformiad wedi dirywio nes i'r Alliance gael eu cosbi, ym mis Ionawr 2006, â'r un faint o gredydau gwasanaeth ag a gafwyd ar ddechrau'r contract.[31] 'Yn amlwg, heb fod yn dderbyniol' oedd disgrifiad Dr Harrington o safon y gwasanaeth ond dywedodd fod y swyddogion yn gweithio'n ddygn â SBS i wella'r sefyllfa. Cafwyd cryn nifer o gredydau gwasanaeth ym mis Ionawr 2006 o ganlyniad i ddigwyddiad difrifol , pan dorrodd y systemau e-bost i lawr oherwydd problemau â'r gweinyddion.[32] Rydym yn nodi sicrhad Dr Harrington fod y swyddogion wedi trafod y problemau ynglŷn â pherfformiad SBS â Rheolwr Gyfarwyddwr SBS ac y dylai newidiadau yng ngweithlu'r Alliance a'u rheolwyr ar y safle wella'r sefyllfa.[33]

## Nid yw contract Merlin yn cwrdd ag anghenion Aelodau'r Cynulliad

29. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi negodi nifer o ddangosyddion perfformiad TGCh â'r.[34] Roeddem ni'n pryderu nad yw'r dangosyddion hyn yn adlewyrchu anghenion y defnyddwyr i gyd, yn enwedig anghenion rhanddeiliaid allweddol megis Gwasanaeth Seneddol

---

[30] Atodiad A, para. 141, 146 a 211
[31] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para 2.18 a Ffig. 13
[32] Atodiad A, para. 143 a 153
[33] Atodiad A, para.153
[34] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para 2.22 – 2.24 a Ffig 14

y Cynulliad.[35] Mae'r gwahanu gweinyddol rhwng Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad, a ddigwyddodd ym mis Ebrill 2006 gan ragflaenu sefydlu Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2007, yn rhoi cyfle i ddatblygu safonau'r gwasanaeth i ateb anghenion neilltuol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn well.[36]

## Nid yw'r Alliance hyd yma wedi cyflwyno manteision y gwahanol bartneriaid sy'n cydweithio

30. Yng ngoleuni'r problemau perfformiad yn ystod dwy flynedd gyntaf y contract, rydym yn cydnabod y perygl y gallai'r berthynas rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Alliance ddirywio a pheryglu felly wireddu'r manteision a ddaw yn sgil gweithio mewn partneriaeth. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym ei fod yn gweithio gyda Chyfarwyddwyr Alliance ar Fwrdd Partneriaeth Merlin i alluogi'r berthynas i ddatblygu'n bartneriaeth o'r iawn ryw yn hytrach nag yn gontract mwy confensiynol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau.[37] Cyfeiriodd yn arbennig at y berthynas rhwng Llywodraeth y Cynulliad a PA Consulting Cyf fel un hynod effeithiol ond cydnabu fod anawsterau ar hyn o bryd ag SBS sydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o wasanaethau TGCh. Dywedodd fod Llywodraeth y Cynulliad yn aberthu amser er mwyn herio perfformiad TGCh heb danseilio'i pherthynas hirdymor â'r cwmni. A phe digwyddai i'r berthynas ddirywio, rydym yn croesawu'r sicrwydd fod amodau yn y contract ddylai ddiogelu gwasanaeth TGCh da ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad.

31. Cyfeiriodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd at y perygl ychwanegol y gallai dirywiad ddigwydd yn y berthynas rhwng y partneriaid yn yr Alliance, sydd heb weithio gyda'i gilydd o'r blaen. Dywedodd y swyddogion wrthym nad yw'r partneriaid eto'n gweithredu fel undod diwnïad ond, er hynny, cafwyd enghreifftiau o waith da. Dywedodd Dr Harrington wrthym fod y swyddogion wedi herio'r Alliance yn ddiweddar i ddangos sut y mae'r partneriaid, wrth gydweithio yn yr Alliance, yn gallu

---

[35] Atodiad A, para. 154
[36] Atodiad A, para. 155-157
[37] Atodiad A, para. 189 a 193

cyflwyno mwy na chyfanswm y gwahanol rannau petaent yn gweithio ar wahân i'w gilydd.

## Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu'i allu i ddefnyddio'r contract i weddnewid prosesau busnes y Cynulliad

### Mae'n rhaid i'r Cynulliad sicrhau bod y contract yn rhoi gwerth am arian yn ystod ei oes

32. Thema allweddol adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Archwilio ar Osiris oedd bod diffyg hyblygrwydd yn y cynllun ac nad oedd digon o ddarpariaethau effeithiol ar gyfer asesu a sicrhau gwerth am arian.[38] Gwnaethom argymell nifer o fesurau i sicrhau y byddai'r contract olynol , oedd yn cael ei negodi ar y pryd, yn gallu rhoi gwerth am arian yn ystod oes y contract. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym ei fod wedi gorchymyn yr uwch berchennog â chyfrifoldeb dros gaffael Merlin i ddefnyddio argymhellion y Pwyllgor Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel rhestr wirio y mae'n rhaid ei chyflawni.[39] Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dod i'r casgliad bod Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi sylw i bob un o argymhellion y Pwyllgor ar Osiris yn ystod proses gaffael Merlin.[40]

33. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Merlin yn disgrifio nifer o achosion lle y bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad ail-negodi â'r Alliance, er enghraifft, am fod nifer y defnyddwyr wedi codi ar ôl uno'r CCNC â Llywodraeth y Cynulliad neu am fod angen diweddaru'r dechnoleg.[41] Trwy'r gallu hwn i addasu, caiff Llywodraeth y Cynulliad gadw'i hyblygrwydd ynghylch penderfynu amseriad yr adnewyddu technolegol, gan wneud y penderfyniad ar sail asesiad o anghenion Llywodraeth y Cynulliad ar y naill law a'r farchnad dechnoleg ar y llaw arall.[42]

---

[38] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para. 2.6 a Ffig. 9
[39] Atodiad A, para. 185
[40] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* Atodiad 3
[41] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para. 2.7 a 2.10
[42] Atodiad A, para 95

34. Daw'r hyblygrwydd hwn fodd bynnag â'r peryglon ychwanegol sydd ynghlwm wrth negodi eto â'r Alliance. I leihau'r perygl hwn, bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ganddi i asesu'i gofynion TGCh ac i herio cynigion yr Alliance.

Roedd yn dda gennym nodi bod y contract yn cynnwys nifer o fesurau sy'n golygu bod Llywodraeth y Cynulliad yn cael profi a geir gwerth am arian yn ystod oes contract Merlin. Dywedodd Dr Harrington wrthym fod y swyddogion wedi negodi disgownt o 15 y cant o ran cyfaint yn dilyn y cynnydd yn nifer y defnyddwyr ar ôl yr uno â'r CCNC. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn arfaethu hefyd feincnodi costau defnyddwyr i ddangos gwerth am arian oddi wrth y rhan o'r contract sy'n ymwneud â TGCh.[43]

Hefyd, mae'r contract yn gosod terfyn ar faint o elw a gaiff yr Alliance, ac mae gan Lywodraeth y Cynulliad hawl yn ôl y contract i fynnu cyfrifon llyfr agored sydd yn caniatáu iddi archwilio cyfrifon y cwmni ar gyfer y contract. 15 y cant o elw yw'r targed dan gontract Merlin ond, yn wyneb costau ychwanegol yr Alliance oherwydd yr oedi yn y broses weddnewid, dangosodd adolygiad cyntaf y Cynulliad o'r cyfrif elw a cholled fod yr elw cryn dipyn yn llai na hynny.[44] Hyderwn y daw elw'r Alliance o gontract Merlin o ganlyniad uniongyrchol i welliant sylweddol o ran perfformiad.

34. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad yr hawl i siarad â chyflenwyr eraill neu i ymgymryd â chyflwyno'r gwasanaeth hyd yn oed os yw'r swyddogion yn credu nad yw partneriaeth Merlin yn rhoi gwerth da am arian, yn enwedig pe bai amodau'r contract wedi'u torri'n sylweddol. Mae hyblygrwydd neilltuol yn achos newid busnes y contract lle y gellid cael dewis o wahanol gyflenwyr.[45] Efallai, fodd bynnag, na fyddai'n ymarferol i Lywodraeth y Cynulliad ddefnyddio'i hawl i gamu i mewn a darparu'r gwasanaethau TGCh drosti'i hun, a derbyn pa mor hanfodol yw'r rhan sydd gan TGCh yn ei busnes a'r angen am gadw perthynas â phartneriaid

---

[43] Atodiad A, para 96, 181 a 186

[44] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* Ffig. 15; ac Atodiad A, para. 100

[45] Atodiad A, para. 183 a 198 - 201

yr Alliance. Gweithio gyda'r Alliance i wella safonau'r gwasanaeth yw'r dull pwysicaf o ymateb i berfformiad gwael.[46]

### Bellach, rheolir y costau yn fwy cadarn a chredydwyd gordaliad o £241,000 i'r Cynulliad

35. Gordalodd Llywodraeth y Cynulliad £241,000 i'r Alliance ar gyfer 191 o staff oedd naill ai wedi ymddiswyddo, neu wedi bod yn absennol yn hir oherwydd salwch neu seibiant yn eu gyrfa. Fe'n synnwyd ni o ddeall nad oedd rhestr ddiffiniol o ddefnyddwyr TG pan ddechreuodd y contract ac nad oedd system gadarn i fonitro'r defnyddwyr. Cytunwn ag asesiad yr Ysgrifennydd Parhaol y dylai Llywodraeth y Cynulliad fod wedi sylweddoli'n gynharach nad oedd y wybodaeth hanfodol hon ar gael; yr unig le y daeth i'r amlwg oedd mewn archwiliad mewnol a gomisiynwyd ganddo ac a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2004. O ddeall y broblem, cafwyd ateb byrdymor drwy ofyn i isadrannau wirio'u rhestrau defnyddwyr bob mis. Cafwyd ateb parhaol yn ddiweddar pan grëwyd system TG hollgynhwysol adnoddau dynol (a elwir yn 'Snowdrop') sydd yn sail i nifer o swyddogaethau, gan gynnwys y gyflogres, ac sydd yn gwahaniaethu rhwng staff parhaol, staff dros-dro a chontractwyr a hefyd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth.[47] Rhoddodd yr Alliance gostau'r gordaliad yn eu hôl i'r Cynulliad ym mis Mawrth 2006 ond roedd hyn ryw ddau fis a bymtheg ar ôl i'r broblem ddod i'r amlwg.[48] Cawsom ein sicrhau gan yr Ysgrifennydd Parhaol mai adlewyrchu diwedd blwyddyn ariannol 2005/2006 yr oedd yr ad-daliad yn hytrach na dyddiad cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.[49]

36. Mae uno amryw o CCNC ar ôl 1 Ebrill 2006 wedi ychwanegu ychydig dros 2,000 o ddefnyddwyr, gan godi cyfanswm nifer y defnyddwyr dros drothwy'r fformiwla brisio a amlinellwyd yn y contract.[50] Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi negodi disgowntiau ar yr hyn a godir am y

---

[46] Atodiad A, para. 196, 199-201
[47] Atodiad A, para. 107 – 108 a 124
[48] Atodiad A, para. 113 - 119
[49] Atodiad A, para. 120 -121
[50] Atodiad A, para. 122 – 123, Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para. 2.30; Atodiad B

nifer o ddefnyddwyr sydd dros y trothwy a ddynodwyd yn y contract. Roedd ein pryder yn llai o glywed bod gan Lywodraeth y Cynulliad bellach restr gywir o'r rhai sy'n defnyddio TG gan gynnwys staff newydd oedd gynt yn y CCNC.[51]

37. Yn dilyn ein harchwilio i mewn i Osiris gynt, ein hargymhelliad oedd y dylai cyllidebau TG gael eu dirprwyo i'r isadrannau er mwyn eu hybu i reoli'r costau. Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol mai ers Ebrill 2005 yn hytrach na Mai 2004, fel yr awgrymwyd yn ei lythyr dyddiedig Ebrill 2004 atom ni, y dirprwywyd y cyllidebau. Eglurodd fod Penaethiaid yr Is-adrannau wedi derbyn eu cyllidebau dirprwyedig eisoes ym mis Mai 2004 a theimlai nad iawn oedd dirprwyo cyllidebau TGCh ar ganol blwyddyn. Ceisiai'r adrannau , yn hytrach, gadw golwg manwl ar eu gwariant ar TGCh yn un mis ar ddeg cyntaf y contract fel y gallent osod cyllidebau mwy cywir o 2005/2006 ymlaen. Rydym yn derbyn bod y penderfyniad i'w dirprwyo o ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf wedi lleihau'r perygl y byddai'r adrannau'n gwneud camgymeriad wrth gyfrif eu costau TGCh.

38. Er nad oes tystiolaeth uniongyrchol fod dirprwyo'r cyllidebau TGCh wedi gostwng gwariant Llywodraeth y Cynulliad, rydym yn cytuno â barn yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch manteision peri mai'r defnyddwyr sy'n gyfrifol am y costau. Mae dirprwyo cyllidebau'n golygu nad yw'r adrannau'n edrych ar TGCh fel adnodd rhad ac am ddim a'u bod yn cael eu hannog i reoli'u cyllidebau i sicrhau'r gwerth gorau.[52]

## Gallai costau cynyddol i'r defnyddwyr gyfaddawdu'r arian sydd ar gael ar gyfer newid busnes

39. Roeddem yn amau a fyddai'r gyllideb sydd ar gael yn ddigonol ar gyfer newid busnes, a derbyn natur gweledigaeth yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch gweddnewid prif brosesau busnes Llywodraeth y Cynulliad a'r tebygolrwydd y byddai costau TGCh yn codi, yn y tymor byr o leiaf. Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn cydnabod y gallai'r cynnydd yn nifer y defnyddwyr yn sgil rhaglen uno'r CCNC â Llywodraeth y Cynulliad,

---

[51] Atodiad A, para. 123 a 125 - 126
[52] Atodiad A, para. 131 a 136 - 137

wasgu'r gwariant ar TGCh a newid busnes. Dywedodd wrthym, fodd bynnag, y dylai arbedion effeithlonrwydd ostwng nifer y defnyddwyr yn eithaf buan. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn chwilio am arian ychwanegol fydd yn fwy na'r £138 miliwn o gyllid a neilltuwyd ar gyfer prosiectau newid busnes, neu elfen flynyddol y swm, ond i'r prosiectau newid gyflwyno achosion busnes digon cadarn. Mae hyn yn golygu y gallai'r gwariant cyfan o dan gontract Merlin fod, o bosibl, dros y £220 miliwn arfaethedig dros ddeng mlynedd. Oherwydd hyn, mae hi'n hanfodol fod y swyddogion yn arfer y dulliau gwerth am arian sydd yn y contract er mwyn sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn cael gwerth am arian drwy'r amser tra pery'r contract a monitro proffil y gwariant ar wasanaethau TGCh a newid busnes. [53]

### Mae fframwaith llywodraethu Merlin wedi gwella

40. Roedd gwendidau yn y fframwaith llywodraethu gwreiddiol yn golygu nad oedd yr Alliance yn cael ei gynrychioli'n briodol ar Fwrdd Partneriaeth Merlin, sef y corff a fu , yn wreiddiol, yn gyfrifol am wneud penderfyniadau buddsoddi.[54] Cawsom ein sicrhau gan yr Ysgrifennydd Parhaol fod trefniadau llywodraethu ar gyfer Contract Merlin wedi'u cryfhau drwy gyflwyno corff newydd, y Bwrdd Buddsoddi, i fod yn gyfrifol am benderfyniadau buddsoddi terfynol. Nid yw'r Alliance yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd Buddsoddi, ond mae yn aelod o Fwrdd Newid sydd yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â pha brosiectau sy'n mynd o flaen y Bwrdd Buddsoddi i dderbyn penderfyniad terfynol. Yn sgil y trefniant hwn, caiff Llywodraeth y Cynulliad fanteisio ar arbenigedd yr Alliance, gan sicrhau ar yr un pryd nad yw'n cael rhan yn y broses benderfynu derfynol.[55]

41. Mae hi'n bwysig sicrhau bod arbenigedd annibynnol yn gyraeddadwy i Lywodraeth y Cynulliad a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ill dau, er mwyn herio cynigion yr Alliance. Bydd dewis y prosiectau newid busnes sydd yn cael yr effaith mwyaf yn elfen allweddol wrth bennu'r gwerth a geir

---

[53] Atodiad A, para. 9, 170 - 171
[54] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para. 2.12 a Ffig. 11
[55] Atodiad A, para. 101 a 102

gan Merlin. Mae’n rhaid cadw Llywodraeth y Cynulliad wrth iddi ryngweithio â’r Alliance, rhag y perygl mawr o ymddwyn, yng ngeiriau’r Ysgrifennydd Parhaol, ‘fel plentyn mewn siop fferins, yn cymryd y fferins sy’n cael eu cynnig’.[56] I’r perwyl hwn, rydym yn croesawu’r bwriad i ddatblygu contractau fframwaith â chyflenwyr sydd yn rhoi cyngor annibynnol perthnasol.[57]

### Mae angen i’r Cynulliad gyflymu’r broses trosglwyddo sgiliau ar gyfer ei staff

42. Nod allweddol contract Merlin oedd gwella sgiliau swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol ond gwelodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd y broses o drosglwyddo sgiliau wedi bod mor gyflym â’r disgwyl. Roeddem yn pryderu bod yma o bosibl wrth-gymhelliant, oherwydd wrth i’r Alliance arafu trosglwyddo’r sgiliau byddai’r Cynulliad yn gorfod dibynnu ar wasanaethau’r Alliance am fwy o amser nag y rhagwelwyd ar y cychwyn.[58] Cytunwn â’r Ysgrifennydd Parhaol y dylid cyflymu’r broses trosglwyddo sgiliau drwy roi hyfforddiant gwell a mwy ffurfiol i swyddogion y Cynulliad wrth iddynt weithio gyda’r Alliance mewn timau ar y cyd. Ceir gwell cynnydd ond i staff uwch yr Alliance ddechrau gweithio’n fwy cyffredinol o fewn Llywodraeth y Cynulliad i geisio helpu newid ei diwylliant a’i phrosesau, yn enwedig y cynllun i ddod yn sefydliad a seilir fwyfwy ar brosiectau drwy ddatblygu canolfan gwasanaeth proffesiynol o reolwyr rhaglenni a phrosiectau.[59]

### Mae’n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad fesur a sylweddu’r manteision sy’n dod yn sgil Merlin

43. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau’i bod hi’n gallu mesur costau a manteision arfaethedig y prosiectau newid y bydd Partneriaeth Merlin yn gyfrifol amdanynt. Efallai y cyfyd anhawster fodd bynnag wrth fesur a diffinio

---

[56] Atodiad A, para. 102 a 213
[57] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para. 2.41 ac Atodiad A, para. 105
[58] Atodiad A, para 202 ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para. 2.36 – 2.39
[59] Atodiad A, para. 205 - 206

llawer o’r rhain. Mae manteision megis ‘ sylw gwell i ddinasyddion’ yn aml yn annelwig. Mae perygl hefyd y bydd y manteision hynny sy’n deillio o brosiectau cysylltiedig yn cael eu cyfrif ddwywaith.[60]

44. Ar y cyd â PA Consulting, datblygodd Llywodraeth y Cynulliad fodel o natur Llywodraeth y Cynulliad ymhen pedair neu bum mlynedd. Mae Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn datblygu methodoleg i flaenoriaethu prosiectau newid posibl; mae rhai o’r rhain, megis gwella diogelwch TG, yn hanfodol, tra bod eraill yn gofyn gwerthuso’u costau/manteision posibl yn drylwyr. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu dull safonol o fesur costau a manteision prosiectau dros gyfnod, dull sydd yn rheoli’r risg o orbwysleisio manteision prosiectau drwy briodoli’r manteision hynny i fwy nag un prosiect. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym y bydd gan brosiectau strategol mawr eu cynlluniau sylweddu manteision eu hunain a goruchwylir y rhain gan Gyfarwyddwr Datblygu Busnes (i’w benodi) fydd yn aelod o Fwrdd Rheoli’r Ysgrifennydd Parhaol. Bydd Penaethiaid Adrannau unigol yn gyfrifol am gyfrif y manteision a ddaw o brosiectau llai.[61]

---

[60] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Contract Merlin (Mawrth 2006),* para. 2.47
[61] Annex A, paras 213-217

**Atodiad A**

Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad A.

**Atodiad B**

Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad B. Nid oes fersiwn Cymraeg ar gael o'r atodiad yma.